



ASESIAD RISG PENODOL CORONAVIRUS – Adran Ieuenctid a Chymuned

Cwmni	Urdd Gobaith Cymru		
Lleoliad	Adrannau Ieuenctid a Chymuned		
	Mae yr Adrannau Ieuenctid a Chymuned yn cynnig cyfleoedd cyson i unigolion gyfranogi yn lleol o dan arweiniad staff a gwirfoddolwyr yr Urdd		
Cyfnod yr asesiad	Medi 1af > Rhagfyr 1af 2021 i'w adolygu yn fisol neu os oes unrhyw newid: <ul style="list-style-type: none">• yng nghanllawiau'r Llywodraeth• yng ngweithdrefnau mewnol yr Urdd		
Prif Weithredwr yr Urdd	Sian Lewis	Symudol	07826 000704
Cyfarwyddwr	Sian Rogers	Symudol	07976003320
Rheolwr Cymunedol	Eryl Williams	Symudol	07976003314
Ymg. Iechyd a Diogelwch	Alan Gwynant	Symudol	07884 557008
<ul style="list-style-type: none">• Mae'r asesiad hon wedi ei pharatoi yn cyfeirio yn benodol at y risgiau sydd ynghlwm â'r peryglon sydd yn deillio o ledaenu a dioddef oherwydd y feirws Coronavirus (Covid -19).• Mae'r asesiad hon wedi ei pharatoi ar y cyd rhwng Alan Gwynant CMIOSH, Sian Rogers (Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned) Eryl Williams (Uwch Swyddog Datblygu Ieuenctid a Chymuned), Arwel Phillips (Dirprwy Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Glan-Ilyn)• Mae'r ddogfen yn cyfeirio yn benodol at y risgiau sydd ynghlwm â'r peryglon sydd yn deillio o ledaenu a dioddef oherwydd y feirws Coronavirus (Covid -19).• Nid yw'r asesiad hwn yn disodli unrhyw reolau/canllawiau a osodir gan gyrff allanol ar y gweithgareddau, nac yr angen i gydymffurfio a'r gyfraith iechyd a diogelwch. <p>Mae'r asesiad yn seiliedig ar y wybodaeth a dderbyniwyd ganddo 'ch am y gweithgareddau arfaethedig, a'r lleoliadau penodol uchod. Mae'n cyfeirio at y risgiau sydd yn wybodus i'r awdur. Credwn i'r asesiad fod yn addas ac yn ddigonol, ac os gweithredir y mesurau, yn lleihau'r risg i lefel derbyniol. Os bydd unrhyw newid yn y ffeithiau neu'r amgylchiadau, bydd rhaid adolygu'r asesiad hwn. Dylid rhannu'r asesiad hwn gydag unrhyw un all gael eu heffeithio gan y gweithgareddau.</p>			
Paratowyd gan:	Alan Gwynant CMIOSH		



PERYGLON A NODWYD	CORONAFEIRWS Perygl o ledaenu'r firws, yn enwedig i berson bregus Perygl o ddal y firws. Gall y firws achosi symptomau gwan neu ddifrifol, yn debygol iawn i'r fflw cyffredin. Os bydd person bregus yn ei ddal, gall fod yn ddifrifol iawn, neu'n angheuol.
RISG i BWY?	Staff yr Urdd, Cyfranogwyr, Athrawon/Arweinyddion, Gwirfoddolwyr
MESURAU RHEOLAETH	
Mesurau rhag blaen	Pawb i fod mewn iechyd da, ac wedi llenwi ffurflen iechyd Covid-19 penodol - dylid datgelu unrhyw gyflwr meddygol, yn enwedig cyflyrau megis asthma, diabetes, triniaeth feddygol, neu gyflwr sydd yn golygu cymryd moddion yn gyson. RHAID I UNRHYW BERSON SYDD YN ARDDANGOS UNRHYW UN O'R SYMPTOMAU - TYMHEREDD UCHEL, PESWCH CYSON, COLLI' R GALLU I FLASU NEU'R GALLU I AROGLI ayyb, AROS ADRA, A PHEIDIO MYNYCHU GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL.
Cyrraedd y lleoliad	Pawb i ystyried yn ofalus sut i gyrraedd y lleoliad. Os yn bosib, dylid defnyddio trafndiaeth breifat (e.e. car), ac osgoi trafndiaeth gyhoeddus. Os ydynt yn cyrraedd gyda grŵp (mewn bws/bws mini), rhaid i drefnydd y grŵp asesu'r risgiau ar gyfer y daith, a hysbysu'r Urdd ymlaen llaw o'r trefniadau hynny.



Mesurau iechyd (cyffredinol) yn Lleoliad	<p>Bydd gweithdrefnau arbennig wedi eu paratoi a bydd pawb yn dilyn y cyfarwyddyd yn y ddogfen hon.</p> <p>Gosodir arwyddion mewn mannau amlwg yn nodi'r cyfarwyddiadau:-</p> <p>Gofynnir i bawb ddilyn y cyfarwyddyd isod:</p> <p>CYSWLLT CORFFOROL - Ni fydd cyswllt corfforol rhwng NEB (oni bai bod argyfwng).</p> <p>GOLCHI EICH DWYLO YN RHEOLAIDD - Golchwch eich dwylo â sebon a dŵr am o leiaf 20 eiliad, neu defnyddiwch lanweithydd dwylo wedi'i seilio ar alcohol gydag o leiaf 60% o alcohol i ddiheintio'ch dwylo. Ceisiwch osgoi cyffwrdd â'ch llygaid, eich trwyn a'ch ceg. Golchwch eich dwylo, neu defnyddiwch gel saniteiddio ar bob cyfle, yn enwedig ar ôl cyffwrdd offer.</p> <p>Cyfleusterau -</p> <p>OFFER - dylai unrhyw offer fod at ddefnydd personol yn unig h.y. dim rhannu offer. Os nad yw hyn yn ymarferol, dylid glanhau'r offer gyda chlwt diheintio pwrpasol, cyn, ac wedi eu defnyddio.</p> <p>PESWCH neu DISIAN - Defnyddiwch hances bapur i orchuddio'ch peswch neu disian a thafu'r hances i'r sbwriel, yna golchwch eich dwylo. Os nad oes gennych hances o fewn cyrraedd, peswch neu disian i'ch penelin. Mae hylif glânweithdra ar gael i'ch defnydd ym mhob rhan o'r gwerysll.</p>
Monitro iechyd	<p>Monitro iechyd:</p> <p>Bydd staff a gwirfoddolwyr yn cymryd tymheredd pawb wrth iddynt gyrraedd y lleoliad. Gall tymheredd uchel fod yn arwydd o salwch, a bydd staff a gwirfoddolwyr yn cymryd camau priodol mewn achos o dymheredd uchel.</p> <p>Pob Aelod i gwblhau ffurflen iechyd Covid-19 yr Urdd</p> <p>Cadw y ffurflenni iechyd covid-19 am hyd at 21 diwrnod (Track and Trace)</p>
Amau achos o Covid-19	<p>Os bydd tymheredd unigolyn yn mesur 37.8 °C neu'n uwch, dylid:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ynysu'r person yn syth mewn 'stafell ar wahân, gyda'r ffenestri ar agor.• Disgwyl 15 munud, ac wedyn cymryd darlenniad pellach. Os nad oes unrhyw newid rhaid trefnu i'r unigolion adael y safle.
Grwpiau gwahanol yn defnyddio'r lleoliad (multi-occupancy)	<p>Gosod canllawiau llym ar leoliad a symudiadau bob grŵp</p> <p>Trefnu amseroedd egwyl wahanol ar gyfer bob grŵp.</p> <p>Rhaglen gweithgareddau i'w baratoi ar gyfer bob grŵp, gan ystyried yr angen i ddiheintio rhwng bob grŵp.</p>



	<p>Staff i weithio gyda 1 grŵp yn unig gan gadw at ofod gweithredu'r grwpiau yma .</p> <p>Stagro amseroedd cyrraedd a gadael</p> <p>Cynnal gweithgareddau gan gadw at ganllawiau swigod teuluol a swigod cymdeithasol. Mae modd gweithio gyda mwy na un swigen teulu ble mae y gweithgaredd yn caniadau rheolaeth gan gadw at bellter cymdeithasol</p>
Swyddfa	<p>Staff gwbl angenrheidiol yn unig – lle bo hynny'n ymarferol bosib, dylai staff barhau i weithio o gartref.</p> <p>Gosodir y swyddfa fel bod modd i bawb weithio'n gyfforddus, wrth gadw at y rheol pellter o 2m</p> <p>Rhaid i unrhyw ymwelydd aros wrth y drws a pheidio mynd i mewn i'r swyddfa</p> <p>Cedwir y ffenestri ar agor cyn belled a bo modd (gan ystyried tywydd ayyb)</p> <p>Staff i ddefnyddio hylif saniteiddio neu golchi dwylo yn gyson.</p> <p>Cynigir mygydau (o safon feddygol) i'r staff wisgo os ydynt yn dymuno gwneud hynny.</p>
Ymwelwyr	<p>Dim ymwelwr heb drefnu ymlaen llaw – arwyddion i nodi hyn ger y fynedfa.</p> <p>Rhaid i aelod o staff yr Urdd arolygu unrhyw ymwelwyr tra yn y lleoliad.</p>
Contractwyr Allanol	<p>Lleihau'r nifer o 'deliveries' drwy archebu nwyddau angenrheidiol yn unig.</p> <p>Gyrwyr sydd yn dosbarthu nwyddau i ddilyn canllawiau pellter cymdeithasol</p> <p>Aelodau penodedig o staff YN UNIG, i dderbyn nwyddau.</p>
Glanhau	<p>Bydd mesurau ychwanegol i'r gweithdrefnau arferol mewn grym, gan gynnwys:</p> <p>Diheintio bob ystafell sydd yn cael defnydd. Defnyddio peiriant niwlo os nad oes modd rhoi yr ystafell mewn cwarantîn am 72 awr</p> <p>Staff penodol i dderbyn hyfforddiant mewnol ar sut i ddefnyddio'r peiriant niwlo, y cemegyn,</p> <p>Staff sydd yn defnyddio peiriant niwlo i wisgo'r offer amddiffyn personol angenrheidiol.</p> <p>Staff i wirio y manau ymgynnull yn rheolaidd, gan sychu bob wyneb a gyffyrddir yn gyson (e.e. dolenni drysau, canllaw grisiau, byrddau ayyb) gyda chlwt diheintio pwrpasol.</p> <p>Golchi unrhyw ddeunydd cadachau glanhau ar dymheredd o 60^o neu uwch.</p> <p>Gwagio'r biniau ar ôl i'r cyfranogwyr adael.</p>



Cemegau ac offer diogelwch	<p>Gwirio Data sheets cemegau diheintio</p> <p>Gwirio unrhyw gyflwr ac alergeddau megis latex – prynu menig non latex</p> <p>Arweinyddion i hysbysu unrhyw adwaith corfforol gan ddefnyddio cemegau diheintio newydd</p> <p>Dilyn cyfarwyddiadau y cemegau – Osgoi cymysgu cemegau</p> <p>Asesiad COSHH pob cemegyn unigol</p>
Coridorau a grisiau	<p>Gosodir sistem unffordd lle yn bosib neu dilyn canllawiau y lleoliad</p> <p>Arwyddion, yn cynnwys saeth cyfeiriad a neges atgoffa pellter cymdeithasol i'w osod yn y coridor tu allan i bob ystafell neu dilyn canllawiau y lleoliad</p> <p>Grisiau - Cadw at yr ochr chwith Marcio'r grisiau i lawr y canol neu dilyn canllawiau y lleoliad</p>
Achos o salwch (o bosib yn Covid-19)	<p>Os bydd person yn adrodd am symptomau Covid-19, dylid:</p> <ul style="list-style-type: none">✓ Ynysu'r person yn syth mewn 'stafell, gyda'r ffenestri ar agor✓ Cymryd tymheredd y person yn syth, a 10munud wedyn (cofnodi'r canlyniadau). <p>Y person sydd yn cymryd tymheredd i wisgo offer amddiffyn pwrpasol (mwigwd FP3, "visor" a menig). Dylid gwaredu'r PPE yn syth ar ôl ymdrin â'r person, gan olchi'r dwylo a'r breichiau yn drwyadl cyn ac ar ôl ymdrin â'r claf.</p> <p>Os bydd y tymheredd yn uchel a'r symptomau yn parhau neu'n gwaethygu, anfon y person gartref, os yn bosib gyda cherbyd preifat (e.e. car teuluol).</p> <p>Os nad yw cerbyd preifat yn bosib, ystyried mynd a'r person gartref ym mws mini'r gweryll, gyda'r claf yn sedd olaf y bws, yn gwisgo mwigwd (o safon feddygol). Y gyrrwr i wisgo mwigwd (o safon feddygol neu FP3).</p> <p>Cynghori'r claf i ffonio NHS Cymru 111.</p>
Trefniadau Argyfwng	<p>Bob grŵp i dderbyn canllawiau argyfwng wrth gyrraedd, gan gynnwys lleoliad y man ymgynnull mewn argyfwng.</p> <p>Mewn achos o argyfwng, gellir hepgor (dros dro) unrhyw drefniadau unffordd a'r angen i gadw at bellter cymdeithasol – y flaenoriaeth yw cael pawb allan o'r adeilad cyn gynted â phosib, ac yn ddiogel.</p>





Arlwyo - Cegin	<p>Diheintio'r Tegell (tu allan) cyn gwneud paned. Defnyddio Mwg Glan a llwy glan pob tro. Mae angen i staff sicrhau bod yn dod a ddigon o ddŵr i'r swyddfa am y cyfnod y byddent yn gweithio.</p> <p>BWYTA</p> <ul style="list-style-type: none">✓ Bwyta i ddigwydd wrth y ddesg✓ Cadw'r amser o fewn y 2m i'r cyfnod lleia' posib <p>Pwynt diheintio dwylo wrth ddrws cefn y gegin</p>
Toiledau	<p>Rheolwyr safleoedd sydd yn gyfrifol am systemau glanhau a diheintio toiledau.</p> <p>Cadw at rheolau pellter cymdeithasol 2m</p> <p>Posteri golchi dwylo yn y toiledau</p> <p>Golchi dwylo cyn ac ar ôl defnyddio y toiled</p>
Cerbydau	<p>Lle mae defnyddio car yn hanfodol sy'n cynnwys dau neu fwy o bobl, argymhellir defnyddio dau neu fwy o geir yn hytrach na arweinyddion yn teithio gyda'i gilydd yn yr un cerbyd</p> <p>Dylai arweinyddion, lle bo hynny'n bosibl, ddefnyddio eu cerbyd eu hunain</p> <p>Dylai unigolion sydd yn rhannu cerbyd l cyrraedd y adran fel arfer gwneud trefniadau gwahanol er mwyn cadw at y canllawiau pellter cymdeithasol.</p> <p>Rhannu cerbyd – eistedd yn y cefn ar draws o'r gyrrwr, mwgwd a ffenestri ar agor (di-heintio'r cerbyd)</p>
Gweithgareddau	<p>Rhaid gwirio gyda Arweinyddion fod hawl i ddefnyddio unrhyw offer sydd yn y lleoliad yn barod, a dylai staff ac arweinyddion asesu risg yn ddeinamig.</p> <p>Offer i'w gludo a'i gadw tu allan lle yn bosib. Diheintio offer ar ôl defnydd neu defnyddio system cwarantîn 72awr lle yn bosib. System niwlo i'w ddefnyddio yn yr ystafell storio ar ddiwedd y dydd neu ar ôl i grŵp orffen gyda'r offer.</p> <p>Hylif diheintio ar gael – Staff a cyfranogwyr i ddiheintio dwylo cyn defnyddio offer.</p> <p>Os oes angen i berson arall ddefnyddio'r offer – dylid diheintio'r offer yn drylwyr cyn ei drosglwyddo.</p>



Gweithgareddau (ERAILL)	<p>Gellir cynnal gweithgareddau eraill OS OES MODD:</p> <ul style="list-style-type: none">✓ Cadw at y rheol pellter cymdeithasol o 2fedr✓ Diheintio unrhyw offer yn unol â'r canllawiau cyffredinol ar gyfer y gweithgareddau eraill.
Cymorth Cyntaf	<p>Mewn achos syml e.e. gosod "plaster" - y claf i'w osod ei hun, dan oruchwyliaeth staff cymwys. Y claf a'r staff i wisgo mwgwd o safon feddygol, a'r ddau i gadw pellter cymdeithasol o 2fedr.</p> <p>Mewn achos mwy cymhleth lle mae angen sylw brys, y claf i wisgo mwgwd o safon meddygol, a'r aelod o staff i wisgo mwgwd FP3, menig tafladwy a "visor" – dylid gwaredu'r offer amddiffyn yn syth ar ôl gorffen delio gyda'r claf.</p>
Asesu Person anymwybodol	<p>Ffonio 999</p> <p>Gwisgo PPE (menig tafladwy a mwgwd o safon meddygol), peidio rhoi clust yn agos at pen/brest y person. Diheintio cyn ac ar ôl asesu.</p>
Rhoi CPR	<p>Dilyn canllawiau CPR COVID19, Gwisgo PPE (menig a mwgwd fel uchod), diheintio dwylo, gorchuddio'r geg gyda thywel/scarff etc Dim 'Rescue Breaths', dim ond 'continuous compressions' neu AED. Osgoi cyffwrdd wyneb y claf.</p>
Gwybodaeth bellach	<p>https://llyw.cymru/coronafeirws</p> <p>https://icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/</p>



PRIF WEITHREDWR	LLOFNOD	DYDDIAD
SIAN LEWIS		24/9/2020
RWYF YN CYDNABOD FY MOD WEDI DARLLEN YR ASESIAD RISG UCHOD, EI FOD YN GYNRYCHOLAETH CYWIR AC ADDAS O'R GWEITHGAREDDAU DAN SYLW, AC Y BYDD Y MESURAU A NODWYD YN CAEL EU GWEITHREDU		
CYFARWYDDWR	LLOFNOD	DYDDIAD
SIAN ROGERS		24/9/2020
RWYF YN CYDNABOD FY MOD WEDI DARLLEN YR ASESIAD RISG UCHOD, EI FOD YN GYNRYCHOLAETH GYWIR AC ADDAS O'R GWEITHGAREDDAU DAN SYLW, AC Y BYDDAF YN SICHAU BOD Y MESURAU A NODWYD YN CAEL EU GWEITHREDU		
Arweinydd Sesiwn	LLOFNOD	DYDDIAD
RWYF YN CYDNABOD FY MOD WEDI DARLLEN YR ASESIAD RISG UCHOD, EI FOD YN GYNRYCHOLAETH CYWIR AC ADDAS O'R GWEITHGAREDDAU DAN SYLW, AC Y BYDD Y MESURAU A NODWYD YN CAEL EU GWEITHREDU		